# Maniffesto'r plant ar gyfer teithiau diogel ac iach

Brake Kids Walk with Shaun the Sheep

Mae disgyblion ........................................................
Ysgrifennwch enw eich ysgol yma

yn galw ar ........................................................
Ysgrifennwch enw eich awdurdod lleol neu eich AS yma

i helpu pob plentyn i wneud teithiau diogel ac iach

**Mae gennym ni'r hawl i allu gwneud teithiau diogel ac iach yn ein cymuned heb ofn traffig na llygredd. Hoffai mwy na dau draean (68%) o rieni a gofalwyr i'w plant gerdded, beicio neu fynd ar olwynion i'r ysgol yn amlach. Y prif resymau nad ydynt yn ei wneud yw oherwydd bod y ffyrdd yn rhy brysur neu mae'r traffig yn mynd yn rhy gyflym.** [1]

**Felly, rydym ni'n galw arnoch chi – ein hawdurdod lleol – i sicrhau bod yr holl ffyrdd o amgylch ein hysgol yn ardaloedd 20mya ac yn rhydd o draffig sy'n symud yn rhy gyflym. Mae perygl traffig yn ein hatal ni rhag gallu cerdded a beicio'n ddiogel ac mae'n effeithio ar ein gallu i fod yn iach ac yn weithgar yn gymdeithasol. Mae plant o bob oedran mewn perygl o gael eu hanafu neu eu lladd wrth gerdded neu feicio wrth ymyl ffyrdd. Mae angen bod ein teithiau'n ddiogel.**

## Beth sydd ei angen arnom i wneud teithiau diogel ac iach?

- Traffig araf ac aer glân i'w anadlu o amgylch ysgolion
- Mannau mwy diogel i gerdded a beicio i ffwrdd o draffig
- Mannau diogel i groesi ffyrdd.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Damweiniau ar y ffyrdd yw'r prif achos o farwolaeth i blant a phobl ifanc yn fyd-eang [2]
- Caiff mwy na chwech o blant eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd bob dydd yn y DU [3]
- Mae damweiniau ar y ffyrdd yn cael effaith ddinistriol ar deuluoedd a chymunedau
- Mae llygredd o draffig yn achosi salwch anadlu a chlefydau eraill
- Mae teithio llesol, megis cerdded a beicio, yn dda i'n hiechyd ac yn dda i'r blaned.

## Sut allwch chi ein helpu ni?

- Cyflwynwch derfynau cyflymdra 20mya ar ffyrdd sy'n agos i'n hysgol ac yn y mannau lle rydym ni'n byw ac yn chwarae
- Cyfyngwch draffig i leihau llygredd traffig ar ffyrdd yn agos i'n hysgol
- Adeiladwch lwybrau diogel fel y gallwn ni gerdded a beicio i'r ysgol i ffwrdd o draffig
- Crëwch fannau diogel i ni groesi'r ffordd wrth deithio i'r ysgol ac yn y mannau lle rydym ni'n byw ac yn chwarae
- Anogwch ddefnyddwyr cerbydau i yrru ar y cyflymdra iawn ar y ffyrdd iawn.

## Gwrandewch, oedolion! Dyma rai o'r rhesymau pwysig dylech chi ein helpu ni

1. **Mae arafu traffig yn achub bywydau plant**. Mae rhoi mesurau ar waith i leihau cyflymdra gyrwyr yn golygu y bydd llai o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.[4]
2. **Ni ddylai unrhyw un gael eu hanafu ar y ffyrdd**. Mae ffyrdd yn cysylltu pawb, waeth pwy ydym ni a sut rydym ni'n teithio. Mae pob marwolaeth neu anaf difrifol ar y ffyrdd yn drychineb y gellir ei osgoi. Mae gennych chi'r pŵer i roi systemau ar waith i'w hatal. Cefnogwch Weledigaeth Sero a'r Ymagwedd System Ddiogel at ddiogelwch ar y ffyrdd i atal marwolaeth ac anafiadau o ddamweiniau ar y ffyrdd.
3. **Mae'n well i bawb os byddwn ni'n cerdded, yn beicio ac yn mynd ar olwynion mwy**. Mae'n well i'n hiechyd corfforol, ein hiechyd meddwl a'r amgylchedd. A golyga hyn fod angen mannau diogel arnom ni i gerdded a beicio. Fel ein hawdurdod lleol, mae gennych chi'r pŵer i wella cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio ar ein ffyrdd.

**Yn ein hardal ni, golyga hyn ein bod ni eisiau:**

Ysgrifennwch yma'r hyn y byddai'n eich helpu i wneud teithiau diogel ac iach yn eich ardal chi.

**Pwy arall sy'n ein cefnogi?**

Gofynnwch i bobl sy'n eich cefnogi i ysgrifennu eu henwau yma a dweud pam eu bod nhw'n cefnogi'r maniffesto hwn

**"Rydym yn credu ym mhwysigrwydd diogelwch ffyrdd ar gyfer plant ym mhob man."** David McMillan, Prif Swyddog Gweithredol, Esure

**"Mae gan bob plentyn yr hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach, heb ofni traffig a llygredd."** Ross Moorlock, Prif Swyddog Gweithredol Interim, Brake, yr elusen diogelwch ar y ffyrdd


1. Brake (2023) Brake surveyed 2019 parents in May 2023 to find out their opinions on road safety. The survey was carried out by independent research agency SurveyGoo.
2. World Health Organisation. Road traffic injuries
3. Department for Transport (2022) Reported road casualties in Great Britain. Annual report 2021 and associated data tables.
4. PACTS (2023) LUSTRE: Lower urban speed limits in Europe: What does the evidence show? https://www.pacts.org.uk/wp-content/uploads/Lustre-Report-2023-Funded-by-the-RST.pdf


**Diolch am eich cefnogaeth**

**Oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach**

Trefnir gan Brake the road safety charity

Noddir gan esure


AARDMAN, SHAUN THE SHEEP AND SHAUN'S IMAGE ARE TRADE MARKS OF AARDMAN ANIMATIONS LIMITED 2023. ALL RIGHTS RESERVED.

© BRAKE 2023